01.12.2022

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
07774 888145

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Gweilch yn cynrychioli Cymru ar brif lwyfan rygbi Ewrop

Bydd rai o gewri rygbi Lloegr a Ffrainc yn ymweld ag Abertawe dros y misoedd nesaf wrth iddyn nhw herio'r Gweilch ym mhrif gystadleuaeth clybiau rygbi Ewrop.

Tîm Toby Booth oedd yr unig ranbarth o Gymru i gyrraedd Cwpan Pencampwyr Ewrop Heineken y tymor yma, ac mi fyddan nhw'n mynd benben a Chaerlŷr a Montpellier yng ngemau grŵp y gystadleuaeth.

Bydd pob un o gemau grŵp y Gweilch yn cael eu dangos yn fyw ar S4C. Teigrod Caerlŷr bydd gwrthwynebwyr cyntaf y Gweilch, gyda'r gêm yn cael ei dangos yn fyw o'r Stadiwm Swansea.com am 5.15 ar nos Sul 11 Rhagfyr.

Bydd Lauren Jenkins yn rhan o'r tîm cyflwyno **Rygbi Ewrop** ar S4C, yn ogystal â Rhys ap Wiliam, Nathan Brew a'r sylwebwyr, Gareth Roberts, Gwyn Jones, Sioned Harries ac Andrew Coombs. Ymhlith y sêr rygbi fydd yn dadansoddi'r gemau bydd Shane Williams, Elinor Snowsill, Ifan Phillips, Lloyd Lewis a Lyn Jones.

Dywedodd Lauren: "Mae hwn yn gyfnod tyngedfennol i rygbi Cymru, i'r rhanbarthau ac i'r chwaraewyr. Mi fydd chwarae yn Ewrop yn gyfle i'r rhanbarthau ganolbwyntio ar gystadleuaeth wahanol a cheisio dangos eu rygbi gorau yn erbyn y gwrthwynebwyr gorau o Ewrop a De Affrica. Mae dwyster a safon y rygbi yng Nghwpan y Pencampwyr yn cael ei ystyried fel y lefel agosaf at rygbi rhyngwladol, felly mi fydd y chwaraewyr eisiau dangos eu bod yn gallu cystadlu ar y lefel yma, a chreu argraff cyn y Chwe Gwlad.

"Heb os, mae gan y Gweilch her enfawr os ydyn nhw eisiau mynd yn bell yn y gystadleuaeth ac mae'r gêm gyntaf yn erbyn Caerlŷr, pencampwyr Lloegr, felly bydd ganddyn nhw frwydr gorfforol o'u blaenau. Mae Tommy Reffell yn un o sêr y Teigrod ac mi fydda'n ddifyr iawn gweld e yn erbyn rhai o'i gyd-chwaraewyr rheng ôl Cymru, fel Justin Tipuric a Jac Morgan."

Yn ogystal â gemau'r Gweilch yng Nghwpan y Pencampwyr, mi fydd S4C yn darlledu un gêm byw bob penwythnos yn ystod gemau grŵp Cwpan Her Ewrop EPCR. Cyn dangos gemau Dreigiau a Scarlets yn y gystadleuaeth, bydd S4C yn dangos gêm Caerdydd yn erbyn Brive, o Ffrainc, ym mhenwythnos gyntaf y Cwpan Her. Bydd y rhaglen yn cychwyn am 5.15yh ar nos Sadwrn 10 Rhagfyr.

Ychwanegodd Lauren: "Mae rhai blynyddoedd wedi bod ers i ranbarthau Cymru ennill unrhyw gystadleuaeth, felly mi fydd Caerdydd, Scarlets a Dreigiau yn gobeithio am rediad cryf yn y Cwpan Her. Caerdydd sydd wedi cychwyn y tymor y gorau o blith y pedwar rhanbarth, ac mi fyddan nhw'n edrych ymlaen at gychwyn y gystadleuaeth gartref yn erbyn un o dimau Ffrainc.

Bydd ‘na neb yn fwy awyddus ‘na Dai Young i weld Caerdydd yn mynd yn bell yn y gystadleuaeth yma'r tymor hwn."

**Rygbi Ewrop: Caerdydd v Brive - Nos Sadwrn 10 Rhagfyr, 5.15yh**
**Rygbi Ewrop: Gweilch v Caerlŷr - Nos Sul 11 Rhagfyr, 5.15yh**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Media Atom ar gyfer S4C**

01.12.2022

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Can Ospreys perform on European rugby's biggest stage?

Rugby giants from France and England will visit Swansea over the coming months to take on Ospreys in European club rugby's top competition.

Toby Booth's side are the only region representing Wales in this season's Heineken Champions Cup and they will take on pool opponents Leicester Tigers and Montpellier over the coming months.

S4C will show live coverage of every Ospreys pool match in this year's Heineken Champions Cup. Tigers will be the Ospreys' first opponents, with the match being shown live from the Swansea.com Stadium at 5.15pm on Sunday 11 December.

Lauren Jenkins will be part of S4C's **Rygbi Ewrop** presentation team alongside Rhys ap William and Nathan Brew and commentators Gareth Roberts, Gwyn Jones, Sioned Harries and Andrew Coombs. Shane Williams, Elinor Snowsill, Ifan Phillips, Lloyd Lewis and Lyn Jones will be among a host of familiar rugby faces providing analysis on the matches.

Lauren said: "This is a crucial time for Welsh rugby, the regions and the players. Playing in Europe will give the regions a different competition to focus on and a chance to test themselves against the best opposition from Europe and South Africa. The intensity and quality of the Champions Cup is considered the nearest thing to international rugby, so the players will want to show that they belong there and create an impression before the Six Nations.

"Without doubt, Ospreys have a huge task if they want to go far in this competition. Their first match is against the English champions, so they have a huge physical battle ahead. Tommy Reffell is one of Leicester's stars and it'll be fascinating to see him up against some of his fellow Wales back-row players, like Justin Tipuric and Jac Morgan."

As well as Ospreys' matches in the Heineken Champions Cup, S4C will show a game from each round of the pool stages of the EPCR European Challenge Cup. Before showing Dragons and Scarlets in action, S4C's first live match from the competition will be Cardiff v Brive, of France, on Saturday 10 December.

Lauren added: "Years have passed since a Welsh region won any silverware, so Cardiff, Scarlets and Dragons will be hoping for a strong run in the Challenge Cup. Of the four regions, Cardiff have started the season the best and they will look forward to kicking off the competition at home against French opposition. No one will be more eager to see Cardiff go far in the competition than Dai Young."

**Rygbi Ewrop: Cardiff v Brive - Saturday 10 December, 5.15pm**
**Rygbi Ewrop: Ospreys v Leicester Tigers - Sunday 11 December, 5.15pm**

**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Media Atom production for S4C**